



Ein cyf/Our ref KS/05051/18

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

SeneddEAL@assembly.wales

25 Ionawr 2019

Annywl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Ionawr yn gofyn am eglurhad o'm hymateb i Argymhelliad Un eich adroddiad diweddar ar y modd y mae porthladdoedd Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit.

Roeddwn yn hapus i roi manylion yn ystod fy natganiad ar drafnidiaeth a gyflwynais yn y cyfarfod llawn ar 22 Ionawr yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer rheoli traffig yng Nghaergybi.

Roedd y trefniadau y gwnes ymateb iddynt yn rhai masnachol sensitif ar yr adeg yr ymatebais i'ch adroddiad gan fod Llywodraeth Cymru a'n partneriaid cynllunio ar y pryd yn ystyried rhinweddau nifer o safleoedd ar gyfer lliniaru problemau traffig posibl. Nid oeddem yn awyddus i amharu ar y broses asesu nac i gael effaith ehangach ar y safleoedd eu hunain tra bo'r gwaith ystyried yn mynd rhagddo.

Fel yr amlinellais yn fy natganiad llafar, mae'r gwaith dadansoddi presennol yn dangos y gallai'r cerbydau sy'n wynebu oedi gael eu rheoli o fewn porthladdoedd Doc Penfro ac Abergwaun. Mae'r mater hwn yn cael ei adolygu'n gyson, fodd bynnag, rhag ofn fod angen mesurau wrth gefn ychwanegol. Os bernir bod angen cyflwyno mesurau ychwanegol a bod sensitifrwydd ynghlwm wrth rai opsiynau buaswn i'n ystyried rhannu'r manylion yn gyfrinachol ag Aelodau'r Pwyllgor cyn i'r trefniadau gael eu cyhoeddi.

Yn gywir,

Ken Skates AC/AM
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.